**Dyddiad:** **17 Ebrill 2002**

**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgor 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Teitl:** **Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal - Datblygiadau**

## Pwrpas

1. I ddarparu adroddiad dros-dro i'r Pwyllgor ar y defnydd o'r grant penodol o £5m a ddarparwyd i awdurdodau lleol yn 2001/02 i helpu i leihau'r oedi cyn trosglwyddo gofal a chynorthwyo'r sector annibynnol, ac ar ddatblygiadau mwy cyffredinol i leihau'r oedi cyn trosglwyddo gofal yng Nghymru.

## Cefndir

2. Mae oedi cyn trosglwyddo gofal yn rhoi pwysau ychwanegol ar y system iechyd a gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, cyn cyflwyno cyfrifiad Cymru gyfan ym mis Ionawr 2001, roedd y wybodaeth ar oedi cyn trosglwyddo gofal yn anghyson, heb broses safonol i ddiffinio, mesur neu fonitro oedi wrth ryddhau a throsglwyddo gofal ar draws Cymru.

3. Roedd y trefniadau lleol i fesur oedi cyn trosglwyddo a rhannu data ar draws asiantaethau gofal cymdeithasol yn amrywio o drefniadau a gweithdrefnau ffurfiol i drafodaethau ad hoc yn gysylltiedig ag anghydfodau unigol ar gyfrifoldebau asiantaethau. Yn absenoldeb gwybodaeth gyson a gwybodaeth yr oedd pawb yn cytuno arni, credwyd yn aml fod "blocio gwelyau" yn deillio o fethiant y gwasanaethau cydmeithasol i leoli rhywun wedi iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Wrth roi'r bai am yr oedi ar "ofal cymdeithasol" yn gyffredinol, ychydig o gyfle oedd i fesur maint neu ddeall achos y problemau.

## Y Camau a'r Datblygiadau Hyd Yma

4. Edrychodd y Tasglu Pwysau Argyfwng, a sefydlais ym mis Ionawr 2002, ar y mater o oedi cyn trosglwyddo gofal gan wneud cyfres o argymhellion, gan gynnwys diffiniad safonol ar gyfer oedi cyn trosglwyddo gofal a set gyffredinol o resymau y gellir eu defnyddio i fesur niferoedd a chaniatáu cymariaethau ar draws Cymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, ehangwyd y diffiniad i gynnwys nid yn unig rhyddhau o ysbytai ond hefyd drosglwyddiadau o fewn y GIG, er enghraifft o ofal aciwt i ysbytai cymunedol.

5. Ym mis Ionawr 2001, sefydlwyd system beilot yn seiliedig ar ddiffiniadau safonol a set gyffredinol o resymau dros oedi. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cafwyd ymdrech fawr i ddatblygu hyn yn system fonitro gadarn i Gymru gyfan. Er mai system dros-dro ydoedd wrth ddatblygu'r system casglu data, mae'r data a gynhyrchwyd, am y tro cyntaf, wedi caniatáu inni ddadansoddi'r rhesymau dros yr oedi a gwneud cymariaethau ar draws Cymru. Dengys y wybodaeth hon er bod y rhesymau dros yr oedi'n wahanol ym mhob ardal, mae themâu cyffredinol ar draws Cymru i'r rhesymau dros yr oedi sy'n gymhleth ac yn aml yn gydberthnasol. Y prif themâu ar draws Cymru gyfan yw:

- Arian ar gyfer lleoliadau yn y sector cartrefi gofal;
- Y lleoliadau sydd ar gael yn y sector cartrefi gofal. Mae'r oedi hwn yn gysylltiedig yn aml â'r ffaith y gall cleifion ddewis y math o ofal y cânt eu trosglwyddo iddo;
- Trosglwyddo rhwng gwahanol rannau'r GIG;
- Problemau yn y prosesau i ddelio gyda throsglwyddo gofal. Gall yr oedi hwn godi, er enghraifft, o ganlyniad i brosesau asesu.

6. Mewn nifer o achosion mae'r rhesymau dros oedi cyn trosglwyddo gofal yn ddwfn a chymhleth gan eu gwneud yn anodd i fynd i'r afael â hwy. Partneriaid lleol sy'n gyfrifol am leihau a rheoli'r oedi cyn trosglwyddo gofal ac mae angen ymrwymiad tymor hir ac atebion sy'n ymdrin â phroblemau y sector iechyd a'r sector gofal cymdeithasol ar y cyd.

7. Mae'r trefniadau presennol i reoli gofal a pherfformiad yn cynnwys:

- Dangosyddion perfformiad ar oedi cyn trosglwyddo gofal yn cael eu cynnwys yn awr yn nhrefniadau rheoli perfformiad yr awdurdodau lleol newydd;
- Penwyd targedau ar gyfer gostyngiadau yng Nghynllun Grantiau 2001-2; ac
- Fel rhan o'r gofynion perfformiad yn y Gwasanaeth a'r Fframweithiau Ariannol (SaFF) ar gyfer 2002-3, mae disgwyl i awdurdodau iechyd gydweithio wrth wneud y gostyngiadau sy'n rhan o Gynllun Grantiau 2001-2.

**Cynllun Grant £5m 2001-2**

8. Bu Cynllun Grant 2001-2 yn dosbarthu arian i lywodraeth leol, gan ganiatáu i awdurdodau lleol ddelio'n uniongyrchol gydag achosion lleol o oedi cyn trosglwyddo gofal gyda'u partneriaid yn y GIG a'r sectorau annibynnol a gwirfoddol. Roedd yr Arweiniad i'r Cynllun Grant yn cynnwys nodau ac amcanion penodol a chanllawiau ar ddefnyddio'r arian. Un nod oedd i helpu i sefydlogi'r sector annibynnol. Roedd amcanion eraill yn canolbwyntio ar yr angen i wella gwasanaethau cymunedol i roi'r dewis i bobl o ran gofal, tra'n helpu i osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty ac oedi cyn trosglwyddo gofal.

9. Un o'r amodau oedd yn gysylltiedig â dyrannu arian y grant oedd y byddai Cynlluniau Gweithredu Oedi Cyn Trosglwyddo Gofal yn cael eu hail-gyflwyno gyda'r cynlluniau gwariant. Cafodd y Cynlluniau Gweithredu hyn eu cyflwyno'n wreiddiol ym mis Hydref 2001. Cawsant eu llunio gan

bartneriaid yn y GIG a Llywodraeth Leol ym mhob awdurdod lleol, gyda chyfraniadau gan y sectorau gwirfoddol ac annibynnol perthnasol.

10. Dengys y Cynlluniau Gweithredu a ail-gyflwynwyd y defnyddir yr arian hwn, fel y'i bwriadwyd, i fynd i'r afael â materion a phroblemau lleol. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, golyga hyn godi ffioedd cartrefi y sector annibynnol. Ar ben hyn, mae nifer o ardaloedd wedi dewis rhoi cefnogaeth ychwanegol i wasanaethau sy'n galluogi pobl i fyw gartref trwy wasanaethau ychwanegol yn y cartref, mwy o oriau o therapi galwedigaethol a gwaith cymdeithasol a darparu cymhorthion ac offer. Dengys Atodiad A ddadansoddiad trwy Gymru gyfan o'r gwariant arfaethedig fesul awdurdod lleol a fesul categori.

**Y Camau Nesaf**

11. Mae angen ymrwymiad parhaus a mwy o waith i leihau'r oedi cyn trosglwyddo gofal. Ar ben yr arian ychwanegol, fe fyddaf yn rhoi mwy o gymorth i bartneriaid lleol i gynnal yr ymdrech sylweddol sydd eisoes yn cael ei roi i leihau'r oedi cyn trosglwyddo gofal. Y prif gamau i'w gweithredu yw:

- **Monitro.** Ar hyn o bryd, mae'r wybodaeth ar oedi cyn trosglwyddo ar gael fel ciplun yn unig ar ddyddiad penodol o bob mis. Byddai cyflwyno cronfa ddata llawer gwell ar gyfer casglu data yn gwella'r gwaith o fonitro'r oedi. Bydd hon yn system "wirioneddol", yn caniatáu mwy o ddadansoddi'r rhesymau dros yr oedi ac yn rhoi arf pwerus i reolwyr weithredu i ddelio ag oedi cyn trosglwyddo gofal yn seiliedig ar y wybodaeth hon. Mae'r system newydd yn dechrau ar Ebrill 8.

- **Dadansoddiad.** Parhau i ddadansoddi Cynlluniau Gweithredu Oedi cyn Trosglwyddo Gofal i sicrhau bod achosion o oedi yn cael eu trin yn effeithiol yn lleol ac i nodi'r arfer gorau.

- **Lledaenu Arfer Gorau.** Cyhoeddir cyfeirlyfr arfer da i helpu i ledaenu dyfeisgarwch wrth gyflenwi gwasanaethau yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

- **Gwella'r Broses.** Mae arweiniad i brosesau rhyddhau effeithiol ar y gweill i'w ddefnyddio gan ymarferwyr sy'n rhyddhau cleifion.

**Cydymffurfio**

12. Cafodd arian y Cynllun Grant ei ddosbarthu dan Adran 28B o Ddeddf GIG 1977. Nid oes unrhyw faterion o reoleiddio na phriodoldeb.

**Goblygiadau Ariannol**

13. Ffynhonnell y £5m o arian grant yw Prif Grwp Gwariant (MEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Is-grwpiau Gwariant (SEG) Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Eraill a Llinell Gwariant yn y Gyllideb (BEL) yr Henoed a Gofal Tymor Hir.

**Gweithredu gan y Pwyllgor**

14. Gofynnir i’r Pwyllgor nodi cynnwys y papur hwn.

**JANE HUTT**
**Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Swyddog Cyswllt**

Claire Rowlands, Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol, Cangen 1. Estyniad 6742.